# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Awst 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**A wnaiff y Prif Weinidog nodi
a) Faint o swyddogion y wasg a gyflogir gan Lywodraeth Cymru,
b) Ers pa ddyddiad y mae'r swyddogion y wasg wedi cael eu cyflogi, ac
c) Beth yw cyflog y swyddogion y wasg. (WAQ43946)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Irene James (Islwyn):** Pa ystyriaeth a roddwyd i agor Rheilffordd Glyn Ebwy fesul cam wrth i bob rhan gael ei gorffen. (WAQ43943)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**Faint o swyddogion y wasg a gyflogir gan y WDA a Bwrdd Croeso Cymru. (WAQ43947)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**Faint o swyddogion y wasg a gyflogir gan ELWa. (WAQ43948)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Ardaloedd Chwilio Strategol yn effeithio ar dir comin yng Nghymru. (WAQ43949)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i leihau amseroedd aros am lawdriniaeth orthopedig yn Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent. (WAQ43941)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sgrinio am ganser y coluddyn yng Nghymru ac unrhyw gynlluniau i roi rhaglen sgrinio tebyg i'r rhai yn Lloegr ar waith yng Nghymru. (WAQ43942)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o ran yr

Ysbyty Plant i Gymru. (WAQ43944)

**Irene James (Islwyn):** Oes cynlluniau gan y Gweinidog i gyflwyno Canolfannau Iechyd galw heibio tebyg i'r rhai yn Lloegr. (WAQ43945)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Gwasanaeth Fitreol Retinol yn Ne Cymru a pha fesurau sydd ar waith i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol ar gael ar benwythnosau i gleifion sydd mewn perygl o golli eu golwg. (WAQ43950)